**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio Rheoli Gwastraff: Adroddiad Pwyllgor (2) 01-05**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiolchgar am yr adroddiad. Rydyn ni'n croesawu'r canfyddiadau, ac yn dilyn ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar yr argymhellion hynny lle y cyfeirir yr Asiantaeth, rydym yn cynnig yr ymatebion canlynol i'r deuddeg argymhelliad yn yr adroddiad

1 **Yn y dyfodol, os ceir deddfwriaeth newydd neu os caiff deddfwriaeth ei diweddaru, fod Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio sicrhau bod yr holl bwerau perthnasol yn cael eu datganoli i'r Cynulliad**

**Cytuno.** Dyma'r arfer presennol.

2 **Bod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i annog awdurdodau lleol i ailgylchu gwastraff trefol ac i geisio osgoi ei waredu mewn safleoedd tirlenwi, ond ei bod hefyd yn canolbwyntio'i hymdrechion ar leihau'r 24 miliwn tunnell o wastraff a gaiff ei gynhyrchu gan ffynonellau eraill, yn enwedig gwastraff amaethyddol**

**Cytuno.** Rhaid i'r prif ffocws fod ar wastraff trefol gan fod yna dargedau penodol o fewn Cyfarwyddeb Tirlenwi'r CE mewn perthynas â'r ffynhonnell gwastraff hon. Gallai achosion o dor-ddyletswydd godi o fethu. Hefyd, mae lefelau ailgylchu ac adfer ar gyfer ffynonellau gwastraff eraill, er enghraifft gwastraff diwydiannol, dipyn yn uwch na gwastraff trefol.

Ar hyn o bryd, mae gwastraff amaethyddol wedi'i eithrio o reolaethau rheoli gwastraff cenedlaethol. Fodd bynnag, mae Defra yn ymgynghori ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd ar y Rheoliadau sy'n angenrheidiol er mwyn cymhwyso rheolaethau rheoli gwastraff i wastraff amaethyddol. Pwrpas y rheolaethau hyn yw sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn ffyrdd sy'n diogelu'r amgylchedd a iechyd pobl a'r amcanion hirdymor yw lleihau ac adfer cymaint o wastraff amaethyddol â phosibl.

Bydd adolygiad y Strategaeth Wastraff yn 2007 yn rhoi cyfle i ystyried y cynnydd a wnaed a chanolbwyntio ar unrhyw ffynonellau gwastraff pellach y nodir eu bod yn cael eu rheoli'n llai cynaliadwy. Mae ymgynghoriad ar y strategaeth ddiwygiedig wedi'i gynllunio ar gyfer Hydref 2007.

3 **Bod cynlluniau gwastraff rhanbarthol yn cael eu hadolygu er mwyn nodi'r math o leoliadau lle gellid creu cyfleusterau rhanbarthol. Rydym yn argymell ymhellach fod Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno cyfarwyddyd i awdurdodau lleol i sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Unedol/Lleol yn nodi**

**safleoedd posibl ar gyfer gweithgareddau rheoli gwastraff**

**Cytuno'n Rhannol.** Mae'r Cynulliad yn derbyn yr angen i adolygu Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol i nodi math o leoliadau lle gellid creu cyfleusterau rhanbarthol, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor.
Mae'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol eisoes yn darparu rhai canllawiau ar ofynion safleoedd a lleoliadau nodweddiadol ar gyfer mathau arbennig o gyfleusterau gwastraff.Y cam nesaf yn y gwaith hwn yw adolygu'r cynlluniau drwy fonitro a diweddaru'r wybodaeth i gefnogi darpariaeth ddigonol y system gynllunio ar gyfer y rhwydwaith cyfleusterau rheoli gwastraff sydd eu hangen er mwyn cyrraedd y targedau yn Strategaeth Wastraff Cymru - Yn Gall Gyda Gwastraff.
Yn ogystal, mae ymchwil mapio gwastraff Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol wedi'i gomisiynu a fydd yn helpu i lywio'r broses ymhellach drwy ddiffinio meysydd chwilio am gyfleusterau gwastraff addas.

Mae defnyddio pwerau'r Cynulliad i roi Cyfarwyddiadau i addasu cynllun neu alw i mewn gynllun cyfan neu ran ohono yn dal yn opsiwn, ond byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru ond yn dymuno dibynnu ar y rhain os âi pethau i'r pen. Rydym o'r farn mai'r ffordd fwyaf cynhyrchiol ymlaen fyddai cydweithio'n agos ag awdurdod lleol drwy ddatblygu cynlluniau lleol i sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu nodi a'u datrys mor gynnar â phosibl yn y broses gynllunio.

**4 Bod Llywodraeth y Cynulliad a'r Asiantaeth yn ystyried nodi sut y mae modd goresgyn y rhwystr a gaiff ei greu gan ddiffyg data**

***Cytuno.***

Dyma'r trefniadau cyfredol ar ddata ynghylch faint o le sydd ar gael mewn safleoedd:

Mae Nodyn Cyngor Technegol 21 Gwastraff yn ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Datblygu Unedol wneud yn amlwg faint o le sydd yn yr ardal i ddelio â gwastraff a gwneud asesiad o'u gwastraff eu hunain, gan gyfeirio at ddata Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Unedol, felly, ddangos bod digon o ddarpariaeth ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff i gyrraedd y targedau yng Nghyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r adolygiad o'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn ei gwneud yn ofynnol:

- asesu'n flynyddol y goblygiadau defnydd tir ar gyfer blaengynllunio pob awdurdod lleol er mwyn gweithredu'r dyraniad arfaethedig o gapasiti rheoli gwastraff yn y dyfodol ar gyfer pob math o wastraff i bob awdurdod cynllunio lleol;
- rhoi datganiad blynyddol ar ddatblygu polisïau cynllunio defnydd tir mewn cynlluniau datblygu sy'n cael eu paratoi yn y rhanbarth i weithredu a bodloni gofynion y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol, er mwyn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer y seilwaith sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu targedau Strategaeth Wastraff Cymru.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod yr angen i asesu'r data sydd ar gael a mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth data. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio'n agos â'r Asiantaeth i gytuno ar sut y bydd gwell data yn cael ei ddarparu.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymateb i ymgynghoriad gan Defra ar ddatblygu a gweithredu strategaeth tair blynedd i wella data ar draws pob ffynhonnell wastraff yn y DU. Dylai canlyniadau'r ymgynghoriad hwn gael eu cyhoeddi fis nesaf.

**5 Bod Llywodraeth y Cynulliad, fel rhan o'i hymgyrch i godi ymwybyddiaeth, yn ystyried sut y gallai fod yn well addysgu'r cyhoedd a'u cynnwys yn y broses o ddewis ffyrdd o waredu gwastraff**

**Cytuno.** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod gan y cyhoedd yng Nghymru rôl hanfodol i'w chwarae er mwyn i Gymru gyfan reoli ei gwastraff yn gynaliadwy.
Dechreuodd ymgyrch cyfryngau Cynllun Craff am Wastraff ym mis Tachwedd 04 a bydd cyfnod cyntaf yr ymgyrch hon am godi ymwybyddiaeth yn rhedeg hyd ddiwedd Mawrth. Dylai adroddiad gwerthuso ar effaith y cam cyntaf hwn fod ar gael erbyn diwedd Mehefin. Mae'r ail gyfnod eisoes wedi'i gynllunio a bydd yn dechrau ym mis Mai. Bydd yn canolbwyntio'n fwy ar weithredu, ee drwy ystyried pa eitemau y gellir eu hailgylchu a beth y gall y cyhoedd ei wneud i fod yn rhan o'r broses.

**6 Bod Llywodraeth y Cynulliad, gyda chymorth yr Asiantaeth, yn rhoi ystyriaeth briodol i gasgliadau'r prosiect ymchwil ac yn sicrhau bod iechyd yn dod yn rhan hanfodol o'r broses gynllunio mewn perthynas â chyfleusterau gwastraff a datblygiadau eraill a all effeithio ar yr amgylchedd ac ar iechyd pobl**

**Cytuno.** Mae iechyd eisoes yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n ystyried canfyddiadau'r prosiect ymchwil sy'n archwilio materion iechyd mewn perthynas â'r system gynllunio. Bydd hyn yn cyfrannu i'r gwaith o ddatblygu canllawiau drafft ar gyfer ymgynghori'n ddiweddarach eleni, a fydd hefyd yn ystyried cyhoeddiad Llywodraeth y Cynulliad "Gwella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldebau: Arweiniad ymarferol i Asesu'r Effaith ar Iechyd".

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn parhau i roi cyngor a chymorth i Lywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â materion iechyd mewn cyfleusterau gwastraff a datblygu ei gysylltiadau ag ymarferwyr iechyd a'r sawl sy'n defnyddio eu cyngor. Bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad ar gynnwys ystyriaethau iechyd yn y broses gynllunio a'r prosiect a ariennir gan y Cynulliad ar gyfer rhannu data a gwybodaeth sy'n ymwneud â iechyd (gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth briodol, gryno a strwythuredig reolaidd ar gyfer proffesiynolion iechyd).

7 **Bod yr Asiantaeth a Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i fusnesau sy'n ymwneud â chynhyrchu a rheoli gwastraff peryglus ynglyn â'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â gwaredu gwastraff peryglus yng Nghymru**

**Cytuno.**

Mae'r drefn gwaredu gwastraff peryglus yng Nghymru yn newid yn sylweddol yn y tymor byr i'r tymor canolig yn sgil dod â rheoliadau newydd i rym. Gweithredwyr y gwaharddiad ar gyd-waredu gwastraff peryglus ac amheryglus ym mis Gorffennaf 2004 a bydd y Meini Prawf Derbyn Gwastraff a'r Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) diwygiedig yn dod i rym ym mis Gorffennaf 2005. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod ei chyfrifoldeb i wneud busnesau'n ymwybodol o'r drefn reoliadol newydd. Rydym wedi cydweithio'n agos â'r Asiantaeth i sicrhau bod busnesau Cymru yn cael digon o wybodaeth am oblygiadau'r Gyfarwyddeb Tirlenwi a ddaeth i rym fis Gorffennaf diwethaf ac y byddant yn parhau i gydweithio'n agos â hwy i sicrhau bod y cynnydd yn nifer y sylweddau a gaiff eu rhoi yng nghategori sylweddau gwastraff peryglus yn cael ei gyfathrebu'n glir.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn rhoi gwybodaeth yn rheolaidd i Fforwm Gwastraff Peryglus Cymru ynghylch opsiynau gwaredu ar gyfer gwastraff peryglus. Ar ran Llywodraeth y Cynulliad, mae'r Asiantaeth hefyd wedi ysgrifennu at bob cynhyrchydd Gwastraff Peryglus sy'n hysbys a phob cludydd gwastraff cofrestredig yng Nghymru.

Gan fod busnesau'n debygol o fod angen defnyddio safleoedd Tirlenwi Gwastraff Peryglus yn Lloegr, mae'r Asiantaeth wedi rhyddhau gwybodaeth am safleoedd o'r fath a bydd yn parhau i wneud hynny.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd, mewn cydweithrediad â Llywodraeth y Cynulliad a Defra, yn cynllunio mwy o ymgyrchoedd gwybodaeth ar draws Cymru a Lloegr, er mwyn rhoi sylw i weithredu'r drefn reoliadol newydd.

8 **Bod yr Asiantaeth, wrth iddi ymgymryd â'i gwaith o roi trwyddedau a chaniatâd, yn cofio bod perygl i ymgynghoriadau cyhoeddus hirfaith arwain at gostau afresymol i'r gweithredwyr, ac y gall y costau hynny fod yn ddigon o rwystr iddynt beidio ag agor cyfleusterau gwaredu a thrin gwastraff y mae eu dirfawr angen**

***Anghytuno.***

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn pryderu bod yr argymhelliad hwn yn seiliedig ar gamddealltwriaeth ffeithiol. Nid yw costau sylweddol ac anarferol sy'n gysylltiedig ag ymgynghoriadau cyhoeddus hirfaith wedi'u pasio ymlaen i ymgeiswyr o'r blaen ac ni fwriedir gwneud hynny.

Mae'r Asiantaeth wedi nodi pryder y Pwyllgor ynghylch y gost i ymgeiswyr. Fel y nodwyd mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, nid yw'r Asiantaeth yn derbyn y bydd y

ffïoedd cais nodweddiadol y mae'r Asiantaeth yn eu dymuno yn rhwystr economaidd sylweddol i weithredwyr gwastraff agor cyfleusterau newydd.

Mae'r Asiantaeth yn dymuno gweld cost arferol prosesu ceisiadau yn cael eu hadlewyrchu yn y ffïoedd cais. Mae hyn yn sicrhau bod yr Asiantaeth yn cael arian i graffu'n briodol ar geisiadau, ac mae'r gost yn cael ei hysgwyddo gan y darpar lygrwr yn hytrach na'r pwrs cyhoeddus.

Gallai cost arferol prosesu gynnwys peth ymgynghori cyhoeddus, yn enwedig lle caiff ei yrru gan gyfarwyddeb cyfranogiad y cyhoedd. Cydnabyddir y bydd costau ychwanegol ymgynghori cyhoeddus, mewn rhai ceisiadau dadleuol iawn, yn cael eu hysgwyddo gan yr Asiantaeth o'i chymorth grant.

**9 Bod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn cynnal adolygiad manwl o'i chofrestr o eithriadau ac yn clustnodi'r gweithgareddau hynny sy'n peryglu'r amgylchedd fwyaf gan sicrhau eu bod yn cael eu rheoleiddio'n briodol cyn ac ar ôl i'r rheoliadau newydd ddod i rym**

***Cytuno***

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn awyddus i sicrhau bod ei chofrestr o weithgareddau a eithrir yn ddiweddar ac yn gywir. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd statudol ar yr Asiantaeth i nodi manylion yn y gofrestr o bob gweithgaredd a eithrir y mae'n ei darganfod neu y caiff wybod amdani.

Yn dilyn derbyn arian penodol gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2004/05, mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi cynllunio ymweliadau i tua 500 o safleoedd lle mae gweithgareddau a eithrir, sy'n fwy peryglus, yn cael eu cofrestru.

Bydd rheoliadau newydd, y disgwylir eu gweithredu ym mis Gorffennaf 2005, yn cynyddu'r rheolaethau ar gyfer sawl gweithgaredd a eithrir, sy'n berygl amgylcheddol mawr. Byddant yn cynnwys y cyfleuster i godi ffi am gofrestru ac adnewyddu'r eithriad, fel y bydd gan yr Asiantaeth arian i reoleiddio'r gweithgareddau. Bydd hen gofrestriadau ar gyfer y gweithgareddau hyn yn dod i ben fel mai dim ond gweithgareddau cyfredol sy'n para'n gofrestredig.

**10 Bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cofrestru ac yn defnyddio system *Flycapture* heb oedi ymhellach**

**Cytuno.** Dim ond 2 awdurdod lleol sydd yng Nghymru bellach eto i gofrestru gyda Flycapture ac un awdurdod arall nad yw eto'n defnyddio'r system i gofnodi ffigurau. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio'n agos â'r awdurdodau hyn i fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau y daethant ar eu traws gyda system Flycapture.

**11** **Bod Llywodraeth y Cynulliad ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn ystyried ai dosbarthu taflenni drwy awdurdodau lleol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddysgu busnesau am y system dyletswydd gofal ym maes gwastraff ac a ddylent ystyried ffyrdd eraill o godi ymwybyddiaeth**

**Cytuno.** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi adolygu'r gwaith o ddosbarthu'r daflen ac mae'n derbyn mai cymharol ychydig o fusnesau sy'n dweud mai dyma'u prif ffynhonnell wybodaeth. Fodd bynnag, mae'n ddull effeithiol o gyrraedd pob busnes yng Nghymru ac mae cynnwys y daflen o fewn y llythyr Cyfraddau Busnes yn dal yn ddull effeithiol, cost-effeithlon o sicrhau bod pob busnes yng Nghymru yn cael eu cyrraedd, gan gynnwys mentrau bach a chanolig.

Gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn parhau i ddarparu canllawiau a gwybodaeth i fusnesau. Un mesur o'r fath yw 'NetRegs', sef system sy'n seiliedig ar y rhyngrwyd, sy'n esbonio'n glir oblygiadau amgylcheddol cyfreithiol busnesau bach a chanolig. Mae hefyd yn awgrymu camau ymarferol i'w cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiad.

**12** **Bod yr Asiantaeth a Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal adolygiad o'r modd y caiff troseddwyr eu dedfrydu yng Nghymru ac yn ceisio dylanwadu ar y cyrff priodol yn San Steffan. Rydym hefyd yn argymell bod yr Asiantaeth yn datblygu pecyn cymorth 'Costio'r Ddaear' yng nghyd-destun Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o drosedd amgylcheddol ymhlith ynadon a barnwriaeth Cymru.**

**Cytuno.** Yn dilyn gwaith y Pwyllgor Archwilio yn y maes hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi edrych i weld pa wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Comisiynodd DEFRA adroddiad ar dueddiadau mewn dedfrydau amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2003. Ni fyddai Llywodraeth y Cynulliad am ddyblygu'r gwaith hwn. Fodd bynnag, byddwn yn cydweithio'n agos â DEFRA ar eu gwaith parhaus ar faterion cyfiawnder amgylcheddol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn croesawu cynllun y Cyngor i lunio canllawiau dedfrydu i edrych yn benodol ar droseddau amgylcheddol yn 2006.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi llunio pecyn gwybodaeth ar gyfer Ynadon, sy'n cynnwys gwybodaeth o "Costio'r Ddaear" a manylion y troseddau amgylcheddol y mae'r Asiantaeth yn eu herlyn. Mae'r pecyn hefyd yn cynnwys cyngor y Panel Ymgynghorol Dedfrydu i'r Llys Apêl ar droseddau amgylcheddol ynghyd â chanllawiau ar gyfer ynadon ar ddedfrydu am droseddau amgylcheddol o'r Gymdeithas Ynadon.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn parhau i gysylltu â'r Llysoedd Ynadon i gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth a bydd pecynnau yn cael eu rhoi i ynadon pan ddarperir hyfforddiant neu pan ddaw ceisiadau i law gan lysoedd.